

## **ARCHIFDY SIR Y FFLINT**

### **Canllawiau ar Gyfer Gofalu am Eich Dogfennau a Ffotograffau yn y Cartref**

Mae dogfennau, llawysgrifau, mapiau, llyfrau a lluniau yn gynhenid fregus, ond gallant yn hawdd eu diogelu rhag niwed corfforol. Mae gofal a thrin gofalus, a dogfennau amgaeedig o ansawdd archifol amddiffynnol, yn help i'w cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae amgylchedd sefydlog priodol, â datguddiad cyfyngedig i olau, tymheredd wedi ei reoleiddio a lleithder cymharol yn cynyddu'r tebygolrwydd o oroesi.

#### **Llyfrau**

- Cadwch nhw o lygaid yr haul ac i ffwrdd o reiddiaduron.
- Tynnwch lwch o'r silffoedd yn rheolaidd, a brwsio cloriau â brwsh meddal.
- Peidio â storio llyfrau mewn manau llaith.
- Mae'n well storio llyfrau trwm ar eu hochr i atal y bloc testun rhag datgymalu o'r clawr.
- Dylai llyfrau gwerthfawr gael eu cadw mewn bocs os yn bosibl, i atal sgraffiniad ar y silff.
- Tynnwch gyfrol o'r silff o ganol y llyfr, yn hytrach nag achosi difrod i ben y llyfr.
- Tynnwch unrhyw lyfrnodau neu glipliau papur, a allai achosi difrod o'u gadael yno.
- Peidiwch â phacio llyfrau'n rhy dynn ar y silffoedd.

#### **Papurau**

- Dylid storio papurau mewn amgylchedd mor gyson â phosibl, o fewn amrediad tymheredd o 13°C i 18°C.
- Cadwch bapurau i ffwrdd oddi wrth olau, a'u storio mewn bocs o ansawdd archifol.
- Tynnwch yr holl glipliau papur a styffylau.
- Peidiwch â defnyddio selotep neu unrhyw dâp cyweirio arall.
- Peidiwch â defnyddio waledi plastig neu albymau an-archifol.
- Mae'n well peidio â phlygu eitemau, ond yn hytrach eu gadael yn fflat.
- Cadwch bapurau asidig megis papur newyddion i ffwrdd o bapurau o ansawdd gwell.

#### **Ffotograffau**

- Storiwch ffotograffau mewn lle tywyll, oer a sych.
- Cadwch brintiau a negatiffau mewn bocsys a llewys archifol.
- Peidiwch â defnyddio papurau alcalinaidd uchel ar gyfer storio. Gallent adweithio â'r llun ffotograffig.
- Peidiwch â defnyddio albymau â thudalennau tâp adlynol, ond yn hytrach defnyddiwch gorneli mowntio ffotograff ar dudalennau albwm.
- Peidiwch â cheisio glanhau'r wyneb - gallwch ddifrodi'r llun.
- Gafaelwch yn yr ymylon yn unig.

Gallwch gael cyngor pellach am gadwraeth eich eitemau oddi wrth Stiwdio Cadwraeth, yn Archifdy Sir y Fflint. I siarad â'r cadwraethwr ffoniwch: **01244 532 414**, os gwelwch yn dda.